PERTHYN

CHWEFROR 2025 Rhifyn 333

Gair y Gweinidog

GERAINT OWEN PRITCHARD 1937 – 2025

Gadewch i mi esbonio. Un o bobl Croesoswallt oedd Geraint, gŵr busnes, cyn-gynghorydd, cyn-faer, cyn-gadeirydd y fainc, blaenor a phriod i Margaret. Gŵr amryddawn, yn gerddor, yn ymddiddori mewn llenyddiaeth a diwylliant, yn gymwynaswr ac yn ffrind cywir i gymaint. Fy mraint i oedd talu teyrnged iddo yn ei wasanaeth angladdol yn Eglwys y Plwyf ar y 30ain o Ionawr, ac wrth wneud hynny, diolch am ei gyfeillgarch a'i gefnogaeth i mi fel ei weinidog rhwng 1992 a 1996. Fe barhaodd y gyfeillgarwch ar hyd y blynyddoedd ac er tristwch ei gyflwr yn dilyn strôc, braf oedd cael bod yn ei gwmni ychydig fisoedd yn ôl.

Fe fyddai'n wir dweud bod bywydau Cymry Croesoswallt ychydig yn wahanol i'r rhai sydd yn y trefi a'r dinasoedd eraill tros y ffin. Mae'n dref ar y gororau, yn Sir Amwythig, ond oherwydd agosatrwydd Siroedd Trefaldwyn a Dinbych, yn dref â naws Gymreig iddi. Bellach mae yna Gylch Ti a Fi wedi ei sefydlu a Siop Gymraeg ar y stryd fawr a phobl ymroddedig yn gwarchod a sicrhau dyfodol yr iaith a'n diwylliant fel cenedl. Un o'r bobl hynny oedd Geraint, wedi ei eni yn y dref ac wedi byw yno trwy gydol ei fywyd, yn un oedd yn hyrwyddo'r Gymraeg yn ei fywyd personol a chyhoeddus, gan ddangos parch, ond yn fwy na hynny, pwysigrwydd popeth sy'n ein gwneud y bobl ydan ni. Ond mi roedd yna rhywbeth arall hefyd, sef ei ffydd. Yn ysgrifennydd Capel Seion, Park Avenue am dros hanner cant o flynyddoedd ac yn flaenor. Y tro olaf i mi ei weld roedd tri llyfr ar y bwrdd o'i flaen; nofel, casgliad o weithiau Shakespeare, gweithiau y gallai ddyfynnu'n helaeth ohononynt a'i Feibl. Er cyfyngiadau ei leferydd, bu'r ddau ohonom yn siarad am ddoe a heddiw bywyd Cristnogol y dref a'r enwad ac yntau y gallu cofio a chyfeirio at unigolion gan gynnwys gwenidogion a'u pregethau. Fel llawer i un

arall bu'n ffyddlon i'r dystiolaeth Gristnogol yn y dref ac wrth edrych ar y gynulleidfa luosog oedd wedi dod yng, roeddwn yn ymwybodol o'r 'cwmwl tystion' oedd yn dyst i'r weithred o gofio. Pobl ffyddlon a glywodd alwad Duw ar eu bywydau, a hynny heb unrhyw ffws, gan ymateb gyda'r ddealltwriaeth o ymgysegriad.

Gwasanaeth o Ddiolchgarwch oedd gwasanaeth angladdol Geraint ond wrth droi trwyn y car am gartref, y teimlad fod yna rhywbeth ar goll. Fe benderfynwyd cynnal y gwasanaeth yn Eglwys y Plwyf ohewydd nad oes oedfa wedi bod yn Seion ers amser, ynghyd â phroblem gyda'r gwres. Wrth siarad gyda'r offeiriad oedd yn arwain, cyfeiriodd at sefyllfa'r eglwysi Cymraeg yn y dref a'r dyfodol. Y llond dwrn yna sy'n parhau'n ffyddlon ac felly trwy Gymru gyfan, bendith arnynt! Ond beth am y dyfodol? Nid dyma'r lle i ddoethinebu nac i feirniadu, digon ydi dweud yng nghyd destun ffydd bod unrhyw ddyfodol yn ddibynol ar ddau beth; y ddealltwriaeth o Dduw yng nghanol ei greadigaeth, yng nghanol bywyd, Duw sydd wedi datguddio ei hun i ni ym mherson ei fab a thrwy waith ei Lân Ysbryd yn dal i ddatguddio ei hun i ni, ac yna'r cwestiwn mawr hwnnw, yn gyffredinol mewn bywyd, rhan iaith a diwylliant, rhan ffydd a bywyd personol ac eglwysig, BETH ALLA I WNEUD?

Boed i ni'r gwyledd-dra i ymateb a darganfod Duw o'r newydd yn bendithio pob ymdrech.

Mae'r dydd yn ymestyn!

Eifion.

NEWYDDION

Cofion

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at y rhai a fu yn yr ysbyty yn ystod yr wythnosau diwethaf: Greta Appleton, Elfed Jones, Denise Morgan, Mary Jones Morris, Morfudd Strange a Luned Williams. Anfonwn ein cofion hefyd at y rhai sydd yn derbyn gofal mewn cartrefi gofal ac yn eu cartrefi eu hunain - at Wyn Thomas sydd wedi symud o Gartref Tregerddan i Hafan y Waun a Glenys James sydd newydd symud i Gartref Cwmcynfelyn.

Derbyn yn gyflawn aelod

Yn y gwasanaeth ar fore Sul, Ionawr derbyniwyd Gwen Aeron Down yn gyflawn aelod yng Nghapel y Morfa gan ein Gweinidog, Y Parch Eifion Roberts.
Mae Gwen yn fyfyriwr yng Ngholeg y Brifysgol Bangor. Estynwyd croeso iddi gan aelodau'r capel gan ddymuno'n dda iddi yn y dyfodol.

Llongyfarchiadau

Mae 75 mlynedd ers i M Wynford Evans gael ei ethol yn flaenor gan wasanaethu fel blaenor yng Nghapel Bethlehem Cwmerfyn ac fel blaenor yn yr Henaduriaeth. Cafodd ei longyfarch yng nghyfarfod yr Henaduriaeth a gyfarfu yng Nghapel y Morfa ar Ionawr 23ain. Rydym ninnau hefyd yn ei longyfarch ac yn anfon ein cofion ato.

Llongyfarchiadau i Mrs. Blodwen Williams sydd wedi dathlu ei phenblwydd yn 90 oed ar ddechrau Rhagfyr.
Dymunwn yn dda i Mrs. Mair Jones pan fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 90 oed ar Chwefror y 6ed.

Cydymdeimlad

Trist yw cofnodi marwolaeth Mr. David Meirion Jones. Daeth y newydd i law am farwolaeth ei briod Ann hefyd yng Nghartref Cwmcynfelyn. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu.

Cydymdeimlwn â Bethan Thomas, ar farwolaeth ei Mam, sef Mrs. Olwen Jones, Y Bala, hefyd Nia a Dafydd, yr wyrion.

Cydymdeimlwn â Jenny a Rhys Jones a'r teulu ar farwolaeth Tad Jenny, sef Mr. Michael Deaville, Tal-y-bont - tad-cu i Glesni, Ynyr a Gethin.

Cydymdeimlwn â Mrs. Glenys James ar farwolaeth ei chwaer-yng - nghyfraith, Mrs Gwenda James, Llandre

Cydymdeimlwn hefyd â Nia a Meurig Royles ar farwolaeth brawd-yng nghyfraith i Nia sef Mr. Huw Roberts, Caerdydd. Roedd yn ewythr i Elin Royles.

Cydymdeimlwn â Lona Jones ar farwolaeth ei brawd-yng-nghyfraith, sef Mr Bertie Lewis, Aberteifi.

Hefyd cydymdeimlwn â Jane, Richard a Ffion Griffiths, Gwesty'r Richmond ar farwolaeth Mam Jane yn Sir Benfro.

Cydymdeimlwn â Mrs Mair Jones ar farwolaeth ei nai, sef Mr. Hywel Davies, Llanon. Roedd yn gefnder i Carys a David.

Cydymdeimlwn â Dyfan a Catrin Powell a'r teulu ar farwolaeth Mam Dyfan, sef Mrs. Sheila Powell, Treforys - mam-gu i Eiry ac Elai

Gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd

Dydd Gwener, 7 Mawrth am 2 o'r gloch yn Eglwys Sant Mair

SULIAU A BLODAU

BLAENOR Y MIS: Rhys Jones

SULIAU

2 Chwefror – Eifion Roberts (Cymun)
9 Chwefror – Eryl Wynn Davies
16 Chwefror – Eifion Roberts
23 Chwefror – Rhidian Griffiths

BLODAU

2 Chwefror – Dilys Lloyd a Hywel Lloyd
9 Chwefror – Elsbeth M Lewis
16 Chwefror – Gwenan a Deian Creunant (rhodd i elusen)
23 Chwefror – Bethan Bryn

TU HWNT I EIRIAU

Rydym ni'r Cymry yn hoff o fynegi ein hunain mewn geiriau, weithiau ar draul sylweddoli fod yna ddulliau eraill o gyfathrebu. Bum mewn gwylnos yn galw am heddwch yn y Dwyrain Canol yn ddiweddar ac fe safodd y dorf yn hollol dawel am hanner awr. Roedd y tawelwch yn siarad cyfrolau.

Nid yw yn ein natur i fod yn dawedog. Er ein hoffter o eiriau a'n gallu arbennig i'w trin, maent yn aml iawn yn annigonol i gyfleu holl ddirgelion ein bodolaeth a'n perthynas â Duw a'n dealltwriaeth o bob agwedd o ddyfodiad Crist.
Caf lawer o bleser o ddarllen dadansoddiadau geiriol a thrafodaethau diwinyddol pobl alluog ond rwy'n gyndyn, serch hynny o fynd ati i ddarllen yn helaeth ac i geisio iachawdwriaeth drwy ryw allu cyfyng ymenyddol. Rwy'n siŵr na fwriadwyd i argyhoeddiadau crefyddol fod yn ganlyniad gallu ymenyddol miniog, byddai materion gwahaniaethol a chymhwysol yn codi eu pennau wedyn.
Mae dulliau amgen i'r llafar a'r ysgrifenedig yn werth i'w hystyried, dulliau megis cyfathrebu gweledol sy'n dibynnu ar sylwi. Byddai'r artist haniaethol Glyn Baines yn gyndyn iawn o siarad am ei waith. Mynnai, pe bai'n gorfod defnyddio iaith i egluro ei beintiadau, beth oedd pwynt eu gwneud yn y lle cyntaf.
Soniai'r cerflunydd mynegiannol John Meirion Morris am natur ysbrydol ei waith a oedd uwchlaw eglurhad geiriol.
Mae'r Prifardd Dafydd John Pritchard wedi cyhoeddi cyfrol o farddoniaeth dan y teitl 'deud llai'. Barddoniaeth gynnil iawn o ran geiriau sydd ganddo gyda llawer ohonynt yn gynnyrch sylwi craff mewn caffi.
Mewn caffi a thŷ coffi nid anenwog oeddwn i hefyd pan sylwais ar symbol graffeg ar y wal. Yn y canol roedd siâp cwpan goffi. O'i chwmpas nifer fawr o linellau, pob un yn dilyn amlinelliad y llall. Roedd y llinell agosaf i'r gwpan yn ymdebygu i'r gwpan goffi ond roedd y llinell allanol wedi colli pob tebygrwydd i'r gwpan yn y canol. Yn sydyn gwelais y gwpan yn cynrychioli Crist a'r llinellau oddi amgylch yn cynrychioli cymhlethdodau damcaniaethau, safbwyntiau diwinyddol geiriol a llafar diddiwedd. Tybed a oes perygl i ni golli golwg ar y Crist yn y canol? Dwysaodd y teimlad hwn pan glywais arweinydd Cristnogol blaenllaw yn cael ei holi gan ohebydd. Gofynnwyd iddo a ddylai Cristnogion droi'r foch arall. Ei ateb oedd, "Faswn i ddim yn defnyddio' geiriau yna fy hun".

Rhoddodd symbol y gwpan goffi neges weledol gref i mi. Wedi blynyddoedd o geisio cyrraedd at Grist trwy ymbalfalu mewn clyfrwch geiriau, dadleuon a safbwyntiau diwinyddol gwahanol, deuthum i'r casgliad mai dechrau gyda Crist yw'r ateb. Wedi'r cwbl faint o waith deall sydd ar un o negeseuon creiddiol yr Iesu i garu ein gilydd.

Gareth Owen (Aberystwyth)

Cristnogaeth21

CLWB SUL CAPEL Y MORFA

GWASANAETH NADOLIG

Cynhaliwyd y Gwasanaeth Nadolig o dan arweiniad y Clwb Sul ar fore Sul, Rhagfyr 22ain. Thema'r gwasanaeth oedd Llwybr Cariad. Roedd yn seiliedig ar hanes y pedwerydd brenin, fel yr adroddir yn y faled gan Cynan. Roedd y pedwerydd brenin yn cael ei gyfeirio oddi ar ei

daith gan alwadau i gynorthwyo'r rhai anghenus y cyfarfu ar y ffordd i Fethlehem. Llwybr cariad a thosturi oedd ei lwybr ef.
Yn ystod yr wythnosau yn arwain at y gwasanaeth bu'r ieuenctid yn trafod, yn paratoi ac yn ffilmio clipiau ffilm i'w cynnwys yn y gwasanaeth - y sefyllfaoedd cyfoes hynny sydd yn galw arnom i ymateb heddiw megis cynorthwyo rhai sydd yn brin o fwyd a chynorthwyo rhywun sydd mewn angen.

I agor y gwasanaeth cafwyd gorymdaith y llusernau gan y plant wrth iddynt ganu geiriau'r emyn "Tyrd O Iesu tyrd, tyrd i'n byd mawr crwn. Golau rho i ni yn ein byd mawr crwn"
Gwnaethpwyd y llusernau gan y plant ar wahoddiad pwyllgor oedd yn trefnu digwyddiad i oleuo'r goeden Nadolig yn y dref ar ran y Cyngor Tref.

Cyflwynwyd y darlleniadau gan y rhieni a daeth y plant ynghyd ar y diwedd i ffurfio golygfa'r preseb a chyd-ganu'r garol "I orwedd mewn preseb"

Yn briodol iawn, penderfynwyd cyflwyno'r casgliad tuag at Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol.

Yn dilyn y gwasanaeth trefnwyd parti Nadolig gan y rhieni yn y festri a daeth Siôn Corn heibio gan ddangos ei haelioni arferol.

Diolch i bawb am eu cymorth a'u cefnogaeth.

Y tymor hwn, ein thema fydd Teithio gyda'r Iesu. Y Sul cyntaf trefnwyd helfa drysor i chwilio am bethau sydd eu hangen ar gyfer mynd ar daith ac arwyddion ffordd sydd yn ein cynorthwyo wrth i ni ddilyn Iesu. Yna, y Sul canlynol aethom ymlaen at hanes galw'r disgyblion cyntaf a'r gwahoddiad gan Iesu i'w ddilyn ef.

Derbyniwyd rhodd o £500 at waith Yr Ysgol Sul yn ewyllys y ddiweddar Mrs Celia Jones. Yr ydym yn ddiolchgar iawn i'r teulu, sef Ann, Lewis a Hywel Jones ac yn gwerthfawrogi cyfraniad clodwiw Celia i waith Yr Ysgol Sul fel athrawes ac ysgrifennydd ar hyd y blynyddoedd.

NEWYDDION EBENESER

Cofion

Anfonwn ein dymuniadau gorau at ein aelodau a'n cyfeillion yn Ebeneser gan ddymuno Blwyddyn Newydd dda i bawb.
Anfonwn ein cofion at y rhai sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi ac sydd yn methu ag ymuno yn y gwasanaethau ar hyn o bryd. Rydym yn cofio'n gynnes iawn atoch.

Anfonwn ein cofion at Denise Morgan sydd wedi bod yn yr ysbyty. Cydymdeimlwn hefyd a Denise a'r teulu ar farwolaeth perthynas iddi, sef yr Athro Geraint Jenkins. Roedd gan eu teulu gysylltiad agos a Chapel Ebeneser ar hyd y blynyddoedd.

GWASANAETHAU MIS CHWEFROR

Chwefror 2 - Gwasanaeth Cymun

Chwefror 16 – Gwasanaeth

Bydd y gwasanaethau o dan arweiniad ein Gweinidog Y Parch Eifion Roberts.

CYMDEITHAS Y MORFA

Y Gymdeithas – Rhagfyr 2024

Dewch bawb yn Garedig, yn ffres ac yn ffrolig,
Yn awr y Nadolig i foli mab Duw..."

Nos Lun, 10 Rhagfyr roedd Festri'r Morfa yn llawn a chynulleidfa deilwng wedi dod i noson Blygain yng nghwmni Arfon Gwilym, Sioned Webb a'n Cadeirydd Robin Huw Bowen. Cymerwyd at y rhannau arweinol gan Gareth Owen cyn i bawb oedd yn bresennol gael gwledd gerddorol.

Noson o ganu gafwyd fwyaf a'r gynulleidfa'n cydganu i ddechrau 'Wele Gwawriodd'. Cafwyd hanes tarddiad y Plygain o'i ddechrau yn Sir Drefaldwyn yn canu hen garolau traddodiadol, yn ddigyfeiliant ac mae'r drws yn agored i unrhyw un gymryd rhan dim ond iddyn nhw barchu'r confensiynau. Mae'r cyfan yn gorffen gyda Charol y Swper wedi'i chanu gan y meibion sy'n bresennol yn y Plygain cyn i bawb ymuno yn y wledd. Roedd 50 o Blygeiniau eleni ac yn handi does dim angen cofio geiriau gan fod y cyfan mewn llyfr taclus!

Yn sicr, cafwyd gwledd i'r glust gan Arfon, Sioned a Robin a'r tri llais yn asio'n hyfryd. Cafwyd gwledd wedi'r canu hefyd gyda danteithion pwrpasol Nadoligaidd i gyd wedi'u trefnu gan Nia. Yn anffodus, nid oedd modd i Nia fod yn bresennol oherwydd salwch teuluol ac anfonwyd cyfarchion a diolch pawb oedd yn bresennol ati. Diolchwyd i bawb am noson wirioneddol ddifyr ac am atgoffa pawb o'r traddodiad gan John Roberts

Daeth y Gymdeithas yn ôl at ei gilydd wedi'r Gwyliau ar 6ed o Ionawr, noson oer a diflas o ran tywydd, ond efo croeso yr un mor gynnes ag arfer i'r rheiny oedd yn bresennol. Dymunodd Robin, y Cadeirydd, Flwyddyn Newydd Dda i'r aelodau, gan obeithio i bawb gael Nadolig wrth eu bodd. Arweiniodd Menai, yr Isgadeirydd, y defosiwn drwy ddyfynu gwahanol benillion, dywediadau, gweddïau ac emynau oedd yn addas i ni Gristnogion wrth edrych yn ôl ac ymlaen adeg dechrau blwyddyn newydd.

Noson Cwis oedd hi, dan ofal ein hysgrifennydd Nia Mair. Croesawodd Robin Nia, gan ddweud mor braf oedd gan bawb ei gweld hi yn ôl gyda ni, ar ôl iddi gael amser digon anodd yn ddiweddar yn gofalu am sawl aelod anhwylus o'r teulu, gyda thripiau annisgwyl i'r ysbyty ar Ddydd Nadolig hyd yn oed. Roeddem wedi gweld ei cholli o'n plith! A dymunodd Robin ar ran pawb, wellhad buan i'r teulu, ac amser gwell iddyn nhw i gyd.

Ond er gwaethaf y trafferthion hyn, doedd Nia ddim wedi'n siomi o ran y cwis, chwarae teg! Roedd hi wedi llwyddo i lunio rhaglen o gwestiynnau craff, llawn dychymyg ar bynciau mor amrywiol

gwybodaeth gyffredinol, llinellau coll caneuon, daearyddiaeth, bwyd a diod, cerddoriaeth rhaglenni teledu o'r gorffennol, anifeiliaid, a digwyddiadau cyfoes. Tri thîm gwahanol oedden ni, o ryw hanner dwsin yr un, ond er gwaethaf cefndir, oedran a gwybodaeth pob un roedd cwestiynnau Nia wedi peri sawl golwg wag o gwmpas pob un bwrdd! (Diolch i Menai am yr help efo'r dechnoleg.)

Hawdd gweld i Nia fod yn athrawes ysgol mewn bywyd blaenorol, wrth iddi eistedd yn y blaen yn teyrnasu drosom fel arholwr TGAU, neu 'Dasgfeistres'. Roedd hi hyd yn oed wedi cyflenwi beiros coch i ni farcio ein gwaith wedyn! Ond, fedrwn i ddim ond teimlo, o'i gweld hi wedi ymlacio ac yn arwain mor hwyliog, fod y noson wedi dod â thipyn o ryddhad llawn sbort i Nia, a chyfle i 'droi-off' ychydig, am un noson o leiaf.

Diolch yn fawr Nia. Fe werthfawrogon ni dy waith trylwyr!

Robin a Menai

DIOLCH, 'CWMNI TACSIS Y MORFA'!

Ddechrau mis Rhagfyr, yn ôl fy ngair, mi drosglwyddais rodd ariannol (er cof am Pat) i goffrau Cymdeithas St Vincent de Paul (cymdeithas

elusennol yr Egwlys Gatholig), fel arwydd o fy niolch am y caredigrwydd a'r cymorth ymarferol a estynoch i mi y llynedd, drwy fynd â mi nôl ac ymlaen i weld Mam yn Henllan, pan na fedrwn ddreifio fy hun yno. Dyma'r llythyr a gefais gan David Greaney, Llanbadarn ar dderbyn yr arian.

Robin

---

10 Rhagfyr 2024

Annwyl Robin,

Rwy'n ysgrifennu atat ar ran aelodau Cangen Aberystwyth o'r SVP (Society of St Vincent de Paul) i ddiolch yn fawr iawn iti am dy rodd hael ariannol tuag at ein gwaith yma yn Aberystwyth a'r ardal gyfagos – rhodd fel arwydd o ddiolch am haelioni dy gyfeillion yng Nghapel y Morfa tuag atat, ac er cof am Pat a fu yn aelod selog iawn o'r gangen am flynyddoedd.

Ein cenhadaeth yw dod o hyd i'r anghenus yn ein cymdeithas ac i'w helpu mewn ysbryd cyfiawnder. Awn i'r afael â phob math o dlodi – ac achosion tlodi – lle y gallwn. Gwnawn ein gorau glas i helpu pobl ar fyrder pan fyddant yn wynebu helyntoedd blin yn eu bywyd. Wrth gyflawni'n gwaith rydym yn ymddiried yn rhagluniaeth Duw. Nid yw'n arfer gennym, felly, gadw arian yn hir yn ein coffrau – ac roedd Pat yn un da am wneud yn siŵr nad oeddem yn tolio!

Ym 1833, sefydlodd y Bendigaid Frédéric Ozanam a rhai o'i gyfeillion gymdeithas elusengar ym Mharis er mwyn mynd i'r afael â thlodi yn y ddinas fawr honno. Penderfynwyd rhoi enw Sant Vincent de Paul ar y Gymdeithas gan y byddai hi, ym mhob nod ac amcan, yn dilyn yr esiampl a roddodd ef ganrif yn gynharach: sef mynnu bod y rhai a

fyddai'n helpu tlodion yn gweld Crist yn wyneb pob un ohonynt a'u trin â pharch. "Yn wir rwy'n dweud wrthych, yn gymaint ag ichi ei wneud i un o'r lleiaf o'r rhain, fy mrodyr, i mi y gwnaethoch." (Matthew [25.40]).

Eleni eto, rydym wedi llwyddo i helpu nifer fawr o bobl trwy roi hwb iddynt i symud ymlaen yn eu bywyd trwy roi help llaw iddynt neu gymorth ariannol. Byddwn yn gwario dy rodd er cof am Pat yn gyflym cyn y Nadolig. Bwriadwn roi rhoddion o £** yr un i unigolion y mae'n fain arnynt ac yn yr un modd £** [dwbl] i deuluoedd. Byddai Pat, rydym yn sicr, wedi cyd-fynd ag anrhegu o'r fath. Ar un wedd roedd Pat yn debyg iawn i Frédéric: ni allai y naill na'r llall ohonynt oddef malu awyr pan oedd tlodi a dioddef dan sylw. Troi at Dduw a gwrando arno, gan fod yn barod i dorchi llewys, oedd eu man cychwyn bob tro.

Roedd Pat – y Brawd Pat – yn driw i fywyd ysbrydol a chenhadaeth yr SVP. Rydym yn diolch i Dduw amdano, yn enwedig yr adeg hon o'r flwyddyn, adeg pen-blwydd ei farwolaeth. Sant Vincent a Bendigaid Frédéric, gweddïwch drosto a thros ei Frodyr a Chwiorydd Vincent yma yn Aberystwyth.

Diolch eto oddi wrthym am dy haelioni amserol, a phob bendith iti,

David

Llywydd Cangen Aberystwyth o Gymdeithas SVP

DYDDIAU I'W COFIO

3 Chwefror am 7.00 o'r gloch – Sialens 100 Copa Cymru yng nghwmni Sara Down-Roberts a John Roberts

24 Chwefror am 7.00 o'r gloch – Dathlu Gŵyl Ddewi yng nghwmni Mair Tomos Ifans yng Ngwesty'r Marine

GWEDDIWN

Tyrd gyda ni ar ein taith
Grëwr yr enfys,
tyrd drwy ddrysau caeedig
ein hemosiynau,
ein meddyliau a'n dychymyg;
tyrd i gerdded ochr yn ochr â ni,
tyrd atom yn ein gwaith a'n gweddi,
tyrd i'n cyfarfodydd a'n cynghorau,
tyrd i'n galw ni wrth ein henwau,
i'n galw i bererindod.
Iachäwr clwyfedig,
allan o'n diffyg undod
gwna ni'n aelodau ynghyd;
allan o boen ein rhaniadau

gad i ni weld dy ogoniant;
galw ni o brysurdeb y presennol
i greu cymuned i'r dyfodol.
Ysbryd undod,
heria ein rhagdybiaethau,
galluoga ni i dyfu mewn cariad a deall,
bydd yn gwmni inni ar ein taith,
fel yr awn allan i'th fyd yn hyderus
fel creadigrwydd newydd –
un corff ynot ti,
er mwyn i'r byd gredu.

Amen

(Kate McIlhagga o Amser i Dduw, Gol. Elfed ap Nefydd Roberts)

WYTHNOS WEDDI AM UNDOD CRISTNOGOL

Crynodeb o bregeth rymus Y Parch Aled Edwards yn yr Oedfa Undebol, Capel Y Morfa, Ionawr 19eg

O ystyried helyntion ein byd cyfoes, mae'r darlleniadau yn y Llithiadur Rhyngwladol ar gyfer y Suliau sy'n arwain ar wasanaethau'r Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol yn cynnig canllawiau cadarn i'n cyfnod. Ystyrir bedydd Iesu a hanes troi'r dŵr yn win yn y briodas a gafwyd yn Canan ar y trydydd dydd.
Ynghylch bedydd, gellir dwyn i gof yr addewid i ddilyn Crist ond, gan ddilyn cwestiwn Llyfr Gweddi 1664, i ymwrthod â'r diafol a'i holl weithredoedd. Beth yw ystyr hynny i ni fel Cristnogion cyfoes mewn wythnos pryd y lledaenwyd celwydd am Gyngor Ffoaduriaid Cymru chwe miliwn o weithiau yn dilyn ymyrraeth Elon Musk ac elfennau o wledydd eraill a ellir eu hystyried yn eithafol?

Efallai taw drygioni'r diafol i ni heddiw yw drwg sydd tu hwnt i ddrwg. Drwg bwriadol sy'n peri niwed mawr. Drwg sy'n gwisgo nodweddion personoliaeth. Ar hyd a lled ein byd ceir mannau bychan lle y digwyddodd bethau mawr. Pethau gwirioneddol ddrwg a hynny o fwriad.

Mae hanes troi'r dŵr yn win yn cynnig ysbrydoliaeth aruthrol i'n byd. Sylwir yn yr hanes ar sut y mae Mair yn dirnad beth yw gweinidogaeth Iesu, bod ganddo'r awdurdod i wneud pethau arbennig a bod ei amser wedi cyrraedd. Mae'r hanes hefyd yn ein rhybuddio am ddal gafael ar bethau a fu. Pethau sydd wedi pallu. Efallai taw da o beth yw i ni roi heibio'r syniad ein bod heddiw yn fwy annigonol na'r saint a aeth o'n blaenau. Nid yw Duw wedi darfod ymwneud â'i bobol yng Nghymru. Mae'n galw ar ei Eglwys i weithio yn ei fyd.

Mae Duw yn ein galw i fod yn bobl grym y trydydd dydd. Fe'n gelwir i dystiolaethu mewn cyfnod heriol a thywyll fel pobl y gwin gorau.

Aled Edwards

GOLYGYDDION Y MIS HWN – Eifion ac Alwen

GOLYGYDDION MIS MAWRTH – Gwerfyl a Menai

Dyddiad Cau – 14 Chwefror

gwerfylpj@googlemail.com

menaillwyd@googlemail.com